| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 14 Tachwedd 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | David Stewart, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br><br>Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'n ymdrin ag adroddiad blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi cyfrif i'r Cyngor dros waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mlynyddoedd bwrdeistrefol 2020/21, 2021/22 a 2022/23.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn dal i ystyried mor bwysig yw llywodraethu corfforaethol da ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, yn enwedig felly:

- bod y gofrestr risg gorfforaethol yn dal yn effeithiol,
- pryderon y Pwyllgor ynglŷn ag effeithiau posib ar ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau llywodraethu allweddol, neu anawsterau wrth recriwtio a chadw staff,

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.  This document is available in English.

- mor bwysig yw’r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae’n ofyniad statudol ar y Cyngor i gael Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y’i diwygiwyd. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor at y diben hwn. Swyddogaeth statudol y Pwyllgor Archwilio yw:

- adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod,
- llunio adroddiadau ac argymhellion yng nghyswllt materion ariannol yr awdurdod,
- adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg yr awdurdod, ei drefniadau rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol, a llunio adroddiadau ac argymhellion i’r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
- goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod,
- adolygu’r datganiadau ariannol y mae’r awdurdod yn eu llunio,
- adolygu ac asesu gallu’r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol a llunio adroddiadau ac argymhellion ynghylch y gallu hwnnw (ers Mai 2022).

Y Pwyllgor hefyd yw'r corff sy’n gyfrifol am adolygu’r Cyfansoddiad yn barhaus.

4.2. Cyn mis Mai 2022, roedd yno chwech o aelodau etholedig ar y Pwyllgor ac un aelod lleyg. Cadeirydd y Pwyllgor bryd hynny oedd y Cynghorydd Barry Mellor. Roedd y drefn honno’n cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a oedd mewn grym ar y pryd.

4.3. Newidiodd y sefyllfa yn sgil cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bellach mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith bod tri o aelodau’r Pwyllgor yn aelodau lleyg. Mae yno felly chwech o aelodau etholedig ar y Pwyllgor a thri o aelodau lleyg. Mae’n ofyniad statudol bod Cadeirydd y Pwyllgor yn aelod lleyg. Cadeirydd y Pwyllgor ar hyn o bryd yw Mr. David Stewart.

4.4. Mae Swyddog Adran 151 y Cyngor yn bresennol ymhob cyfarfod o’r Pwyllgor ynghyd â’r Swyddog Monitro a’r Pennaeth Archwilio Mewnol neu gynrychiolwyr ar eu rhan. Mae swyddogion Archwilio Cymru hefyd yn bresennol ymhob cyfarfod.

4.5. Mae a wnelo’r adroddiad hwn â 2020/21, 2021/22 a 2022/23. Y rheswm am hyn yw bod adroddiadau blynyddol 2020/21 a 2021/22 wedi’u gohirio.

4.6. Mae atodiadau’r adroddiad yn cynnwys braslun o’r hyn y bu’r Pwyllgor yn ei drafod yn ystod y cyfnodau hynny.

4.7. Pan gyflwynir yr adroddiad hwn y flwyddyn nesaf (ar gyfer 2023-24), bydd yn cynnwys canlyniadau hunanarfarniad blynyddol y Pwyllgor o’i effeithiolrwydd o safbwynt y ‘Datganiad Sefyllfa:  Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a’r Heddlu’ a chanllawiau cysylltiedig, a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn 2022. Bydd hynny’n galluogi’r Pwyllgor i fynegi unrhyw bryderon a fu ganddo ar hyd y flwyddyn, nodi’r hyn y mae wedi’i wneud i uwchgyfeirio’r materion hynny a/neu wneud argymhellion fel y bo’r angen.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae’r Pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth bwysig yng nghyswllt un o themâu’r Cynllun Corfforaethol, ‘Cyngor sy’n cael ei gynnal yn dda ac sy’n uchel ei berfformiad’.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni ymgynghorwyd â’r Pwyllgorau Craffu nac eraill at ddibenion yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’n chwarae rhan allweddol wrth helpu i sicrhau bod Sir Ddinbych yn Gyngor a reolir yn dda, fel y nodir yn gryno yn Adran 4 ac yn fanwl yn yr adroddiad. Nid oes unrhyw effaith ariannol uniongyrchol i’r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1. Os nad oes Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio effeithiol, mae risg na cheir trosolwg ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, sy’n elfen  allweddol o berfformiad da. Gall llywodraethu corfforaethol gwan gyfrannu at fethiant wrth ddarparu gwasanaethau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae’n ofynnol yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor bod y Pwyllgor yn llunio adroddiad blynyddol.